

ANSAWDD Y PRIDD

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi cyflwyniad syml a chryno iawn i ansawdd y pridd. Mae ansawdd y pridd yn disgrifio cyfansoddiad y pridd o ran maint y gronynnau mwnol. Mae'n cyfeirio ar ronynnau pridd sydd yn llai na 2mm mewn diamedr. Mae gronynnau mwy yn cael eu dosbarthu fel graean, cerrig crynion neu gerrig.

Mae angen i briddoedd gyda gwahanol ansoddau gael eu trin mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n bwysig sefydlu ansawdd y prin cyn ymgymryd ag unrhyw waith.

Mae ansawdd y pridd yn:


- Effeithio ar rywiogrwydd y pridd.
- Darparu sefydlogrwydd i angori gwreiddiau planhigion.
- Darparu maethion ar gyfer y planhigyn.
- Effeithio ar nodweddion draeniad.
- Penderfynu pa blanhigion neu gnydau y gellir eu tyfu.

Maint gronynnau mwnol

Mae yna sawl gwahanol system o ddsbarthu maint gronynnau pridd, gyda phob un yn rhannu'r gronynnau yn raeau, tywod, silt a chlai. Mae'r rhan fwyaf o briddoedd yn cynnwys gronynnau o wahanol faint. Daw'r dosbarthiad a ddefnyddir yn bennaf o system Adran Amaeth yr UD (gweler y triogl isod).

Maint y gronynnau yw'r ffactor pwysicaf wrth benderfynu pa mor anodd fydd pridd i'w amaethu a pha mor rwydd y bydd yn draenio.

Dosbarthiad	Maint (Diamedr)
Graean	> 2.0mm
Tywod	0.06 - 2.0mm
Silt	0.002 - 0.06mm
Clai	< 0.002mm



Nodweddion cyffredinol y tri phrif ansawdd pridd

Priddoedd tywodlyd	Priddoedd siltiog	Priddoedd clai
Teimlad grudiog, yn enwedig pan yn wlyb. Draeniad da. Yn cynhesu'n gyflym. Dim llawer o gynneddf i gadw maeth. Dim llawer o gynneddf i gadw dŵr. Dim gwefr drydanol.	Teimlad sidanaidd neu sebonllyd pan yn wlyb. Draeniad gweddol (os yw wedi cael ei strwythuro yn dda). Dim gwefr drydanol	Teimlad gludiog. Trwm pan yn wlyb. Draeniad gwael. Da am gadw dŵr. Da am gadw maeth. Oer, araf i gynhesu. Gwefr drydanol negatif.

Gelwir y modd y mae gronnau unigol o bridd yn cael eu cyfuno i ffurfio gydgasgliadau mwy yn **strwythur y pridd**. Gelwir y bylchau rhwng y gronnau cydgasgledig yn **fandyllau**. Bydd maint y mandyllau yn dylanwadu ar y cyflymder y mae'r dŵr yn llifo trwy'r pridd, a chyfansoddiad awyrgylch y pridd yn ogystal.

Bydd priddoedd sydd wedi eu cyfansoddi o ronynnau tywod yn cynnwys mandyllau mawr, tra bydd gan briddoedd sydd wedi eu cyfansoddi o ronynnau clai yn bennaf fandyllau bach. Byddai'r pridd delfrydol yn cynnwys cymysgedd o ronynnau pridd bach sy'n ddigonol i gadw dŵr ar gyfer twf gwreiddiau planhigion a gronnau mwy i alluogi dŵr i ddraenio ymaith.

Maint y mandyllau	Nodweddion
> 0.1mm	Bydd dŵr yn draenio trwodd yna byddant yn dal aer
Mandyllau canolig 0.03-0.1mm < 0.03mm	Cadw dŵr y gall y planhigyn ei ddefnyddio Dal dŵr yn rhy dynn i wreiddiau planhigion ei dynnu allan

Arwyddion o strwythur pridd da a gwael

Strwythur Da	Strwythur Gwael
<ul style="list-style-type: none"> Planhigion yn tyfu'n dda Gwreiddio Dwfn Priddoedd briwsionllyd pan yn wlyb a phan yn sych Lliw brown gwastad Arogl'n felys Llawer o bryfed genwair Rhwydwaith o fandyllau gweladwy a chraciau ym mhroffil y pridd Draeniad da 	<ul style="list-style-type: none"> Planhigion yn tyfu'n wael Gwreiddio bas wedi'i gyfyngu i ychydig o graciau neu sianeli pryfed genwair Pridd yn lymphiau caled neu fel llwch pan yn sych Crynswth gludiog di-aer pan yn wlyb Clytiau o bridd brychlwyd neu bridd coch Ychydig o bryfed genwair Padelli neu haenau pridd yn y ffin rhwng yr uwchbridd a'r isbridd Mwsog ar yr wyneb pan yn wlyb



Mae'r tablau ar y dudalen yma yn dynodi amryw o broblemau strwythurol y gellid dod ar eu traws o fewn y tri math o bridd gan awgrymu meddyginiaethau posibl ar eu cyfer.

Problemau strwythurol mewn priddoedd clai	Gwella strwythur priddoedd clai
<ul style="list-style-type: none"> • Mae gronynnau tebyg i blatiau yn glynu ynghyd ac yn ymchwyddo pan yn wlyb • Draenio'n araf, sy'n gwneud y pridd yn ludiog ac yn amddifadu'r gwreiddiau o ocsigen • Yn cracio a ffurfio tyweirch caled pan yn sych • Anodd cynnal strwythur • Peiriannau trwm yn achosi panio os yw'r pridd yn wlyb 	<ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegu sylwedd organig • Ychwanegu calch er mwyn annog clystru • Gwella draeniad • Osgoi cerdded neu weithio ar bridd pan yn wlyb • Rhoi tomwellt organig ar y pridd
Problemau strwythurol mewn priddoedd tywodlyd	Gwella strwythur priddoedd tywodlyd
<ul style="list-style-type: none"> • Ychydig iawn o strwythur sydd gan dywod • Mae gronynnau tywod yn ddiffygiol mewn gwefrau positif neu drydanol ac nid ydynt yn dal eu gafael ar ronynnau neu faethion eraill • Mae dŵr yn draenio ymaith yn gyflym • Mae sylwedd organig yn cael ei ddefnyddio'n gyflym • Mae maethion yn cael eu trwytholchi o'r pridd 	<ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegu sylwedd organig er mwyn gwella cynneddf i ddal dŵr a maeth • Amaethu priddoedd cywasgedig • Ychwanegu clai – 'marlio'
Problemau strwythurol mewn priddoedd siltiog	Gwella natur priddoedd siltiog
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gronynnau yn ysgafn ac yn dueddol o godi i wyneb yr uwchbridd • Pan yn sych maent yn ffurfio caenen neu gap • Gall y gaenen atal eginblanhigion rhag ymddangos • Gellir atal dŵr rhag symud i lawr 	<ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegu sylwedd organig • Osgoi gor-amaethu